



## **TROSOLWG**

Mae'r polisi hwn yn nodi'r ffordd y mae'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) yn ymdrin â'u rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA). Mae MaPS yn bwriadu i adeiladu a gwarchod ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd gan ddarparu mynediad rhesymol ac am ddim at y wybodaeth y mae'n dal a'n bwriadu i gyflawni hwn gan hyrwyddo tryloywder yn y ffordd maent yn gweithredu, eu proses gwneud penderfyniadau a'u gwasanaethau.

Nid yw'r polisi hwn yn cynnwys ceisiadau am wybodaeth bersonol gan nad ydy'r rhain wedi'i chynnwys o fewn ein fframwaith diogelu data.

## **DATGANIAD POLISI**

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA) 2000 yn rhoi'r cyhoedd yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sy'n cael ei ddal gan bob awdurdod cyhoeddus, oni bai lle mae eithriad yn berthnasol ac yn rhoi goblygiad statudol ar bob awdurdod cyhoeddus i sicrhau bod y wybodaeth maent yn ei ddal yn hygyrch ac ar gael yn rhwydd.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n cael ei ddal gan awdurdod cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a gan awdurdodau cyhoeddus DU gyfan sydd wedi'i leoli yn Yr Alban. Mae gwybodaeth sy'n cael ei ddal gan awdurdodau cyhoeddus Yr Alban wedi'i chynnwys o fewn Deddf Rhyddid Gwybodaeth Yr Alban 2002.

Mae gwybodaeth sydd wedi'i recordio yn cynnwys gwybodaeth fel llythyrau, e-byst, lluniau, dogfennau printiedig, ffeiliau cyfrifiadur a recordiadau sain a fideo.

Yn unol â Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 mae gan aelodau'r cyhoedd yr hawl i wneud cais am wybodaeth amgylcheddol ohonom ni.

Bydd amserlenni a phrosesau i gyd yn unol â'r broses a nodir yn y polisi hwn.

Os nad yw'r wybodaeth a geisiwyd amdano yn amgylcheddol, efallai bydd angen i MaPS delio ag ef o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

## **SWYDDFA'R COMISIYNYDD GWYBODAETH**

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yw awdurdod annibynnol y DU, a sefydlwyd i gynnal hawliau gwybodaeth er budd y cyhoedd. Mae'r ICO yn hyrwyddo tryloywder mewn awdurdodau cyhoeddus ac yn darparu cyngor ar geisiadau. Mae hefyd yn gorfodi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth FOIA.

<https://www.gov.uk/make-a-freedom-of-information-request>

<https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-freedom-of-information/>

## **GWEITHDREFNAU GWEITHREDU**

### **Y Cynllun Cyhoeddiad**

O dan y FOIA, mae goblygiad i MaPS cynnal cynllun cyhoeddiad, sef canllaw yn nodi'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd gan awdurdod fel mater o drefn.

Mae MaPS yn cyhoeddi gwybodaeth amrywiol ar ei wefan ar y dudalen Gwybodaeth Gyhoeddus a'n adolygu'n rheolaidd i sicrhau cywirdeb.

<https://moneyandpensionservice.org.uk/foi-publication-scheme/>

### **Gwneud Cais Rhyddid Gwybodaeth**

Dylai geisiadau FOI cael eu hanfon i MaPS trwy e-bost i: [FOI@maps.org.uk](mailto:FOI@maps.org.uk) neu trwy'r post i:

Freedom of Information Officer

Money and Pensions Service

120 Holborn

London

EC1N 2TD

Mae MaPS yn derbyn unrhyw geisiadau ysgrifenedig e.e. llythyr neu e-bost. Os na all berson wneud cais oherwydd anabledd, dylent gysylltu â MaPS a gofyn aelod o staff i'w helpu i wneud cais ac nid oes angen ffi.

Bydd angen i'r person sy'n gwneud cais rhoi:

- Eu henw
- Cyfeiriad cyswllt
- Disgrifiad clir o'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt

Nid oes angen i'r ceisiydd sôn am FOIA yn eu cais er mwyn iddo fod yn ddilys neu nodi'r rheswm maent eisiau'r wybodaeth. Mae ceisiadau am bamffledi, taflenni, neu gyhoeddiadau cyffredinol eraill yn dod o fewn cwmpas busnes fel arfer a chânt eu trin yn unol â hynny. Ni fydd y mathau hyn o geisiadau yn cael eu trin o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

### **Terfynau Amser**

Y terfyn amser statudol i ymateb i geisiadau FOI yw 20 diwrnod gwaith o'r dyddiad derbyn. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu ymateb mor gyflym â phosibl, yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael a chymhlethdod y cais.

Mae darpariaeth am estyniad o hyd at 20 diwrnod os nad ydym yn gallu ymateb os ydym yn rhoi gwybod i'r ceisydd gydag esboniad a dyddiad am ymateb.

## **Yr Hawl i Wrthod Cais**

Mae gan MaPS yr hawl i wrthod cais yn yr amgylchiadau canlynol:

- Mae eithriad yn berthnasol o dan y FOIA
- Mae amcangyfrif yn dangos bydd cost cydymffurfio yn fwy na'r terfyn priodol ar gyfer ymdrin â'r cais.
- Cyflwynwyd Rhybudd Ffioedd i'r geisydd, ond nid yw'r ffi wedi'i dalu
- Mae gan MaPS dystiolaeth sy'n dangos bod y cais yn ailadroddus neu'n flinderus.

Nid yw'r rhestr hon yn drylwyr.

Os ydym yn penderfynu gwrthod cais, byddem yn ysgrifennu at y ceisydd yn nodi'r rhesymau pam mae eu cais wedi'i wrthod o fewn yr amserlen ofynnol.

## **Eithriadau**

Mae dau fath o eithriad o dan y FOIA:

- Eithriad llwyr: Mae hyn yn cyfeirio at wybodaeth na ellir ei rhyddhau o dan unrhyw amgylchiadau, fel data personol rhywun.
- Eithriad Cymwys: Dyma le mae'n ofynnol i ni gynnal Prawf Budd y Cyhoedd i asesu'r wybodaeth y gofynnir amdani. Prawf Budd y Cyhoedd sy'n ystyried a yw'r angen i gadw gwybodaeth yn ôl yn drech na'r budd cyhoeddus i'w datgelu. Eithriadau.

Nid yw'r Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol i eithriadau llwyr a byddem dim ond yn cadw gwybodaeth yn ôl lle mae eithriad yn berthnasol.

## **Prawf Budd y Cyhoedd**

Gall awdurdod cyhoeddus dim ond cadw gwybodaeth yn ôl os yw budd y cyhoedd i gynnal yr eithriad yn drech na fudd y cyhoedd i ddatgelu. Mae budd y cyhoedd hwn yn golygu lles cyhoeddus, dim beth sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd neu ddiddordebau preifat y ceisydd.

## **Golygu Gwybodaeth**

Golygu yw'r broses o gael gware ar wybodaeth o ddogfen a chyflawnir hyn trwy flocio allan adrannau o wybodaeth fel data personol neu wybodaeth sensitif arall cyn ei ryddhau. Os yw'r ddogfen yn annarllenadwy oherwydd golygu, efallai caiff y ddogfen gyfan ei gadw'n ôl.

## **Ymgynghori â Thrydydd Parti**

Os yw MaPS yn derbyn gwybodaeth o drydydd parti yn gyfrinachol, efallai y bydd angen cael caniatâd y parti hwnnw i ddatgelu'r wybodaeth honno. Mae trydydd parti yn cynnwys rhanddeiliaid allanol, asiantaethau partner busnes, contractwyr, ac ati.

Nid oes gan MaPS oblygiad i ddarparu gwybodaeth, heb ganiatâd os yw trydydd parti yn gwrthod eu datgeliad. Caiff barn y trydydd parti ei ystyried yn unol â ffactorau perthnasol eraill yn y broses gwneud penderfyniad. Os yw'r wybodaeth y gofynnir amdani yn ymwneud â data personol, yna gellir golygu hyn a dylid ymdrin ag ef drwy ein fframwaith diogelu data.

## **Ffioedd**

Nid yw MaPS yn codi tâl am ddelio â cheisiadau FOI, ond o dan amgylchiadau penodol bydd ffi yn berthnasol. Mae hwn yn cynnwys:

- Yr amser a dreulir i ymdrin â chais os yw'n fwy na £450. (Cyfrifir hyn fel 18 awr o amser staff yn seiliedig ar gyfradd fesul awr o £25 yr awr).
- Y costau sy'n gysylltiedig ag adalw ac echdynnu'r wybodaeth.
- Taliadau am argraffu, llungopïo dogfennau, a phostio.
- Cyflenwi gwybodaeth mewn fformat sy'n cyfateb â dewis y ceisydd

## **Golygu gwybodaeth sydd wedi'i heithrio**

Ystyrir ychwanegu TAW mewn perthynas â chanllawiau'r llywodraeth sy'n datgan nad yw'n daladwy os yw'r wybodaeth ar gael gan MaPS neu awdurdod cyhoeddus arall yn unig. Os yw'r wybodaeth ar gael o ffynhonnell arall nad yw'n awdurdod cyhoeddus, efallai y byddwn yn cynnwys TAW.

Os bydd ffi yn berthnasol, byddwn yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd gyda Hysbysiad Ffioedd a dyddiad cau i dalu. Unwaith y bydd yr Hysbysiad wedi'i gyhoeddi, bydd y cais yn cael ei oedi, gyda'r nifer sy'n weddill o ddiwrnodau gwaith i gyflawni'r cais yn cael ei gyfrifo o'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl derbyn y ffi.

Os na fydd MaPS yn derbyn y taliad gofynnolo fewn tri mis, bydd y cais yn cael ei gau.

Nid yw hyn yn atal MaPS rhag gwrthod cydymffurfio â chais o dan eithriad y gost

## **Ceisiadau Blinderus ac Ailadroddus**

Nid oes gan MaPS oblygiad i ymateb i geisiadau blinderus neu ailadroddus am wybodaeth o dan Adran 14(1) o'r Ddeddf sydd wedi'i dylunio i ddiogelu awdurdodau cyhoeddus rhag ceisiadau o'r math hwn, gan ganiatáu iddynt wrthod ceisiadau sydd â'r potensial i achosi lefelau o aflonyddwch neu drallod na ellir eu cyfiawnhau. Nid oes rhaid i awdurdod cyhoeddus gydymffurfio â chais sydd yr un fath neu'n sylweddol debygi gais blaenorol a gyflwynwyd gan yr un ceisydd oni bai bod cyfnod rhesymol wedi mynd heibio rhwng ceisiadau'r ceisydd. Ysbaid rhesymol yw 40 diwrnod gwaith.

Mae hwn yn seiliedig ar wybodaeth meincnodi o wefan y Gymdeithas Llywodraeth Leol. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar: "Reasonable Interval to Submit FOI Requests"

Mae Adran 14(1) o'r Ddeddf FOI dim ond yn berthnasol i'r cais, nid yw'n berthnasol i'r ceisydd a anfonodd y cais.

Os ydy MaPS yn ystyried cais ceisydd yn 'Blinderus neu ailadroddus', bydd MaPS dal yn ysgrifennu at y ceisydd o fewn 20 diwrnod gwaith yn nodi'r rheswm pam mae'r cais wedi cael ei wrthod. Bydd MaPS hefyd yn rhoi gwybod i'r ceisydd o'r broses adolygu fewnola'i hawl (o dan adran 50 o'r FOIA) i wneud cais i'r ICO am Hysbysiad Penderfyniad os ydynt yn dymuno uwchgyfeirio'r mater.

## Proses Adolygu a Chwynion

### Proses Cwynion ac Adolygiad Mewnol

Os yw ceisydd yn anhapus gyda'r wybodaeth sydd wedi'i darparu mewn ymateb i'w cais FOI, neu'r ffordd y deliwyd ag ef, mae ganddynt yr hawl i wneud cais am adolygiad mewnol. Caiff yr adolygiad mewnol ei gynnal gan Swyddog Diogelu Data i sicrhau yr ymdrinnir ag ef yn deg a'n ddiduedd. Bydd MaPS yn cydnabod cais y ceisydd o fewn 5 diwrnod gwaith.

Yn dilyn yr adolygiad, caiff penderfyniad ei ddanfoni i'r ceisydd o fewn 20 diwrnod gwaith o'r amser gafodd y cais ei dderbyn. Mewn amgylchiadau arbennig lle mae'r adolygiad yn cael ei ystyried yn gymhleth; efallai caiff yr amser ei estynni i 40 diwrnod. Os yw canlyniad adolygiad yn gwrthdroi'r penderfyniad gwreiddiol i gadw gwybodaeth yn ôl, caiff y wybodaeth ei danfon i'r ceisydd o fewn 20 diwrnod o gwblhau'r adolygiad.

Bydd yr adolygiad yn ystyried unrhyw eithriadau, Prawf Budd y Cyhoedd, amserlenni, a ffactorau perthnasol sy'n ymwneud â'r cais.

Bydd MaPS dim ond yn ystyried ceisiadau adolygiad mewnol sy'n cael eu derbyn o fewn deufis o'r ymateb terfynol i'r cais FOI gwreiddiol.

Os bydd ceisydd yn parhau i fod yn anfodlon gyda chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae ganddynt yr hawl i apelio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Dylai'r ceisydd ysgrifennu i:

The Information Commissioner's Office

Wycliffe House,

Water Lane,

Wilmslow,

Cheshire

SK9 5AF

## FFURFLENNI, CANLLAWIAU AC ADNODDAU PERTHNASOL ERAILL

### Eithriadau Rhyddid Gwybodaeth

Eithriadau Llwyd

Adran 21	Gwybodaeth sydd ar gael trwy ddulliau eraill (yn aml eisoes yn y parth cyhoeddus)
Adran 23	Diogelwch Cenedlaethol – Gwybodaeth a ddarperir gan, neu sy'n ymwneud â chyrrff sy'n delio â materion diogelwch.
Adran 32	Cofnodion Llys
Adran 34	Braint Seneddol
Adran 36	Ymddygiad Effeithiol o Faterion Cyhoeddus
Adran 40	Gwybodaeth Bersonol

Adran 41	Gwybodaeth a ddarparwyd 'Yn Gyfrinachol'
Adran 44	Gwaharddiadau ar ddatgelu – lle gwaherddir datgelu gan ddeddfiad neu lle byddai'n gyfystyr â dirmyg llys

## Eithriadau Cymwys

Dyma'r eithriadau lle mae prawf budd y cyhoedd yn berthnasol:

Adran 22	Gwybodaeth a Fwriadwyd ar gyfer Eithriad Cyhoeddi yn y Dyfodol
Adran 24	Diogelwch cenedlaethol
Adran 26	Amddiffyniad
Adran 27	Cysylltiadau rhyngwladol
Adran 28	Cysylltiadau o fewn y Deyrnas Unedig
Adran 29	Buddiannau Economaidd y DU
Adran 30	Ymchwiliadau a Thrafodion a Gynhelir gan Awdurdodau Cyhoeddus
Adran 31	Gorfodaeth y Gyfraith
Adran 33	Swyddogaethau Archwilio
Adran 22	Gwybodaeth a Fwriadwyd ar gyfer Eithriad Cyhoeddi yn y Dyfodol
Adran 24	Diogelwch cenedlaethol
Adran 26	Amddiffyniad
Adran 27	Cysylltiadau rhyngwladol
Adran 28	Cysylltiadau o fewn y Deyrnas Unedig
Adran 29	Buddiannau Economaidd y DU
Adran 30	Ymchwiliadau a Thrafodion a Gynhelir gan Awdurdodau Cyhoeddus
Adran 31	Gorfodaeth y Gyfraith
Adran 33	Swyddogaethau Archwilio
Adran 35	Llunio polisi'r llywodraeth a Chyfathrebiadau Gweinidogol
Adran 36	Rhagfarn i gynnal materion cyhoeddus yn effeithiol (ac eithrio gwybodaeth a gedwir gan Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi)
Adran 37	Cyfathrebu â'i Fawrhydi, y Teulu Brenhinol neu ynghylch anrhydeddau
Adran 38	Iechyd a Diogelwch
Adran 39	Gwybodaeth Amgylcheddol
Adran 40	Gwybodaeth bersonol yn ymwneud â chais mynediad trydydd parti
Adran 42	Braint Broffesiynol Gyfreithiol
Adran 43	Buddiannau Masnachol

## POLISI'AU PERTHNASOL

Polisi Diogelu Data: [Dolen](#)